# Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023
# Perfformiad Theatrig o Sgript  Bl.7, 8 a 9 (Dysgwyr)
# (2 - 4 mewn nifer)

**Addasiad allan o 'United' gan Eirug Wyn gan Sara Mair**

*Gellir newid rhyw ac enwau'r cymeriadau a'r dafodiaith.  Pwysleisir mai props syml sydd eu hangen ar gyfer yr ymgom.*

**Cymeriadau:**

- Dingo
- Wayne
- Y Prifathro (Mr Price)
- Jennifer Price (merch y Prifathro) + Llais o'r swyddfa

**Lleoliad***: Ysgol Uwchradd – mae'r bechgyn ar un ochr o'r llwyfan ar iard yr ysgol ac mae Mr Price yn eistedd wrth ei ddesg yn y swyddfa. Cyn i'r disgyblion ddod ar y llwyfan mae Dingo a Wayne wedi stwffio tatws i fyny piben egsôst un o'r athrawon.*

Dingo: Rho'r taten arall ny i fi. Brysia!!

Wayne: *(yn crynu)* Wel nes di lwyddo i stwffio'r daten i fyny'r egsôst?

Dingo: *(yn grac)* Cadwa di dy lygad ar ddrws yr ysgol, rhag ofn i rywun ddod!

Wayne:  *(Hanner gwaeddi)* Mae Hopalong yn dod!

*Mae'r ddau yn cerdded yn ôl tuag at giât yr ysgol. Mae Wayne yn crynu'r holl ffordd yn ôl.*

Dingo: Tyf lan Wayne, mae Ivor yr Injan yn haeddu hwnna ar ôl stopio ni rhag chwarae i'r ysgol yn y gêm brawf prynhawn 'ma. Dysgith hwnna wers iddo fe.

*Mae Wayne yn ysgwyd ei ben er mwyn cytuno.*

*Daw llais o gefn llwyfan (o'r swyddfa).*

Llais: Dafydd Bee a Wayne Ellis – swyddfa'r Prifathro ar unwaith!

*Mae'r ddau yn edrych ar ei gilydd ac yn llusgo eu traed at swyddfa'r Prifathro. Mae Wayne yn edrych fel ei fod am grio, mae Dingo yn hapus iawn gyda'i hun. Mae Mr Price y Prifathro yn eistedd wrth ei ddesg yn darllen ei ddyddiadur. Wrth weld y bechgyn yn dod mae'n sefyll ar ei draed.*

Mr Price*:  (gwaeddi)* Wel, Wayne Ellis?

*Mae poer o geg Mr Price yn disgyn ar ei wyneb.*

Wayne: Sori syr...

Mr Price: O! Rydych chi'n cyfaddef felly?

*Mae Dingo yn grac a'r prifathro yn hapus – mae'n plethu ei ddwylo.*

Mr Price: Dingo..?

Dingo: Sori Syr!

Mr Price: Felly mae'r ddau ohonoch chi'n cyfaddef?

*Mae'r ddau yn edrych ar ei gilydd. Mae Dingo yn nodio'i ben yna mae Wayne yn nodio ei ben. Mae Mr Price yn peswch.*

Dingo + Wayne: Ydyn, syr.

*Mae'r Prifathro yn edrych ar y ddau ond cyn gallu dweud dim...*

Dingo: Syr, hoffwn ddweud mai fi wnaeth...

*Mae'r Prifathro yn edrych yn grac iawn ar y ddau.*

Mr Price: O! Rydych chi am ddweud rhywbeth? Chwarae'r arwr mawr, ie Dafydd Bee? Hmm? Mae Mr Wynne a minnau wedi bod yn siarad yn hir. Mae'n rhaid i chi gael cosb drom y tro yma. Mae hyn yn beth difrifol!

*Mae saib hir... Mae Dingo yn edrych ar Wayne ond mae Wayne yn edrych ar y llawr.*

Mr Price: Pe baech chi wedi gwadu a dweud celwydd mi fyddech wedi cael o leiaf fis o suspension...ond gan eich bod wedi cyfaddef yn syth mi fydd wythnos yn ddigon!

*Saib arall..mae Wayne wedi codi ei ben*

Mr Price: Yn ogystal â hynny, rydych chi'ch dau wedi'ch gwahardd rhag mynd ar y trip sgïo. Mi fydd yna lythyr yr un i chi fynd adref i'ch rhieni.

Dingo: Ond syr?

Mr Price: Dwi ddim eisiau eich gweld yn yr ysgol. Dim nes bydd pawb nôl o'r trip sgïo. Deall?

*Mae'r ddau yn nodio.*

Mr Price: Iawn, allan!

*Tu allan i'r drws mae Jennifer, merch  Mr Price yn aros amdanyn nhw.*

Jennifer: Mi fydd dy Dad a dy fam yn wallgof gyda thi heno, Dingo, dim ond newydd ddechrau anghofio'r tro d'waethaf ma nhw!

Dingo: Gymrwn ni bethau fel ma nhw'n dod! Ife Wayne?

Mr Price: (gwaeddi) Jennifer

*Mae Jennifer yn rhedeg yn ôl at swyddfa ei thad.*

*Mae Wayne yn ceisio gwenu ar Dingo.*

Wayne: Ond Dingo be da ni mynd i'w wneud?

*Maen nhw'n eistedd.*

Dingo: Mi gawn ni gan bach o ddiod yr un tra'n bod ni'n aros am Jennifer.

*Mae Wayne yn estyn am gan o ddiod ac yn eistedd yn dawel. Mae Dingo yn edrych ar y llythyr ac wrth i Jennifer gerdded nôl at y bechgyn mae'n rhwygo'r llythyr mewn i ddarnau bach.*

Wayne: Be yffach wyt ti'n neud? *(mae'n gwylio Dingo'n rhwygo'r llythyr)* Gei di yffach o row am hynna.

Dingo: Tough Tarten.

Wayne: *(yn siarad â Jennifer)* Mi fyddwn ni'n dod gyda'r criw ar y trên i Fanceinion heno.

Jennifer: Chewch chi ddim siŵr! Wnaiff Ivor-yr-Injan ddim gadael i chi!

Dingo: Fydd Ivor-yr-Injan ddim yn gwybod! Mi fedrwn ni guddio ar y trên rhag yr athrawon.

Wayne: A dydyn ni ddim yn bwriadu dweud dim wrth Mam na Dad!

Jennifer: So chi'n gall! Dingo.. mi fydd rhywun siŵr o'ch ffeindio chi!

Dingo: Dim os byddi di'n dawel. Fel hyn dwi'n ei gweld hi. Os ydyn ni'n dweud adref am heddiw, mi gawn ni row. Fel hyn, mae yna siawns na chawn ni ddim row. Os cawn ni'n dal, dim ond un row fawr gewn ni...

*Mae Jennifer yn ceisio dechrau siarad.*

Dingo: Tough tarten

*Mae Dingo yn dal braich Wayne ac yn ei lusgo o'r llwyfan – mae Jennifer yn edrych yn ôl ar ei thad ac yna'n rhedeg ar ôl y bechgyn.*

***Y DIWEDD***